*Rhaglen Hyfforddiant -Tymor y Gwanwyn 2025*

## Sylwer:

## Rydym yn defnyddio'r system archebu ar-lein ar gyfer POB UN o'r cyrsiau y tymor hwn

**Os yw'r cwrs yn cael ei gynnal dros Microsoft Teams, sicrhewch fod gennych feicroffon a chamera sy'n gweithio a'u bod ymlaen, i'ch galluogi i gymryd rhan. Bydd angen ardal dawel arnoch hefyd a chysylltiad da at y rhyngrwyd. Heb y rhain, fyddwch chi ddim yn gallu cymryd rhan yn yr hyfforddiant.**

# Os oes unrhyw gwestiynau gennych, mae croeso i chi gysylltu â

# EarlyYearsTraining@torfaen.gov.uk

**Cyrsiau Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn 2025**


| Teitl yr Hyfforddiant | Rhif y Dudalen |
|---|---|
| Diogelu GRWPIAU B ac C | 3 a 4 |
| Diogelu -Tîm MASSH | 4 |
| Cymorth Cyntaf Pediatrig | 5 |
| Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu | 6 ac 7 |
| Modiwlau Dechrau'n Deg | 8 a 9 |
| Llwybrau Datblygu | 10 a 11 |
| Ymwybyddiaeth o Sgema | 11 |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | 12 |
| Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | 12 |
| Graddfeydd Sgorio Amgylcheddol | 13 a 14 |
| Modiwlau ADY | 15 a 16 |
| Solihull | 16 |
| Cylch Diogelwch (COS) | 16 |

# Diogelu

Mae’r hyfforddiant diogelu wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

**Ymwybyddiaeth o Ddiogelu Grŵp A (Lefel 1)**

Mae cyrsiau Ymwybyddiaeth o Ddiogelu yn rhoi’r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddiogelu plant. Mae'n disgrifio'r mathau cyffredin o gamdriniaeth, sut i'w hadnabod, a sut i ymateb i bryderon. Mae hefyd yn esbonio sut i adrodd yn gywir am bryderon.

Dylai'r hyfforddiant gorfodol hwn fod yn rhan o sesiwn sefydlu cyflogeion, i bob aelod o staff.

Mae'n ofynnol ar gyfer pob gweithiwr sydd efallai’n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ond sy’n gweithio mewn adeilad lle mae yna ddarpariaeth gofal plant; neu aelodau o Fwrdd / Pwyllgor sy'n cefnogi darpariaeth gofal plant.

Gellir cael hyfforddiant Grŵp A ar-lein trwy'r ddolen isod:

[Grŵp A Diogelu | Gofal Cymdeithasol Cymru]

**Cwrs Diogelu Canolradd Grŵp B (Lefel 2)**

Mae cyrsiau Diogelu Plant Canolradd yn helpu i gynyddu gwybodaeth am ddiogelu ac i addysgu mwy am yr hyn sy'n gysylltiedig â'r broses ddiogelu. Mae'r cwrs yn dangos sut i adnabod camdriniaeth ac adrodd am bryderon, ac mae hefyd yn gyfle i gael rhagor o wybodaeth am y strwythur diogelu, gan gydnabod risgiau a'r hyn sy'n digwydd ar ôl atgyfeirio at ofal cymdeithasol.

Mae angen y cwrs hwn ar bob gweithiwr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Diogelu Grŵp B | 20/01/2025 | 9:30am hyd 12:30pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Diogelu Grŵp B | 17/02/2025 | 1:00 – 4.00pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Diogelu Grŵp B | 19/03/2025 | 6:00pm -9:00 pm | Microsoft Teams |

### Cwrs Diogelu Uwch Grŵp C (Lefel 3)

Mae cyrsiau Diogelu Uwch yn addysgu mwy am yr hyn y mae'r rôl yn ei olygu ac yn helpu i ddeall y broses ddiogelu yn fanylach. Mae'r cwrs yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau ysgrifenedig ac ymarferion rhyngweithiol i helpu i adolygu a datblygu'r gweithdrefnau diogelu yn y lleoliad, i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu plant. Mae'n cynnwys testunau sy'n ymwneud â honiadau o gam-drin yn erbyn aelod o staff a sut i ddelio â'r rhain, deall deddfwriaeth a chanllawiau allweddol sy'n sail i bolisïau lleoliadau ar gyfer diogelwch a llesiant plant, a rolau yn y broses amddiffyn plant amlasiantaeth gan gynnwys cynadleddau achos a darparu adroddiadau ysgrifenedig.
Mae angen yr hyfforddiant hwn ar y rheiny sydd mewn cysylltiad â phlant ac sydd â’r prif gyfrifoldeb dros ddiogelu ar gyfer y ddarpariaeth.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Diogelu Grŵp C | 26 a 27 Mawrth 2025<br>(Cwrs Deuddydd) | 9.30 – 4pm | Microsoft Teams |

# Sesiwn Hyfforddiant i Bersonau Dynodedig Uwch – Gwybodaeth am dîm yr Hwb Diogelu a Chymorth Amlasiantaeth (MASSH)

Bydd y sesiwn hon yn cael ei chyflwyno gan reolwr tîm yr Hwb Diogelu a Chymorth Amlasiantaeth (MASSH) a bydd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae tîm MASSH yn ei wneud – eu rolau a'u cyfrifoldebau, y mathau o atgyfeiriadau y maent yn eu rheoli a'u disgwyliadau. Bydd hon yn sesiwn wych ac yn gyfle i bob Person Dynodedig Uwch a Dirprwy Berson Dynodedig Uwch i ymestyn eu gwybodaeth am brosesau diogelu Torfaen.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Sesiwn Hyfforddiant PDU – Gwybodaeth am dîm MASSH | 6 Mawrth | 9:30-12:30pm | Y Ganolfan Ddinesig, Ystafell Bwyllgor 1 |

# Cymorth Cyntaf Pediatrig

Mae'r cymhwyster cymorth cyntaf hwn sydd wedi'i reoleiddio yn benodol ar gyfer babanod o dan 1 oed, a phlant rhwng 1 a 18 oed.
Yng Nghymru, rydym yn cadw at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac, yn benodol, Atodiad B - Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed a thrwy gydol y ddogfen hon mae pob cyfeiriad at Reoliadau yn cyfeirio at Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016. Mae'r fersiwn hon yn disodli'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016.

**Amcanion y Cwrs a Deilliannau Dysgu**

- Rheoli Digwyddiadau a Diogelwch
- Cymorth Bywyd Sylfaenol i Fabanod a Phlant
- Claf anymwybodol
- Rheoli Gwaedu a Sioc
- Llosgiadau a Sgaldiadau
- Diabetes, Epilepsi, Asthma
- Tagu
- Pigiadau a brathiadau
- Confylsiynau mewn babanod
- Anafiadau i'r pen
- Crŵp
- Pecynnau Cymorth Cyntaf
- Anaf i'r Llygad
- Gwenwynau
- Meningitis
- Cadw cofnodion

**SYLWER:**
Nid yw'n bosibl newid unrhyw enwau ar ôl pythefnos cyn dechrau'r cwrs.
Rhaid i ymgeiswyr ddarparu ID ffotograffig i ddod ar y cwrs hwn.

Mae'r cwrs achrededig hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y rheiny sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn y sector gofal plant – o warchodwyr plant i weithwyr meithrinfa a creche. Dros 12 awr, bydd ymgeiswyr yn cael lefel uchel o hyfforddiant, i'w galluogi i ddelio ag argyfyngau cymorth cyntaf sy'n effeithio ar fabanod a phlant.
Mae rhan o'r hyfforddiant hwn yn ymarferol, ac os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am addasrwydd y cwrs, rhowch wybod i ni cyn archebu lle.

Fel arfer codir £25 y pen am y cwrs hwn, ond rydym yn defnyddio nawdd i dalu'r tâl hwn eto y tymor hwn.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig | 1 ac 8 Chwefror | 9.30 – 4pm | Stadiwm Cwmbrân |

# Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

## Arweiniad ComIT

Nod y sesiwn hon yw dyfnhau eich dealltwriaeth o'r defnydd o'r ffolder canllawiau ComIT i gefnogi pob plentyn gyda datblygiad iaith.  Byddai'r sesiwn hon yn addas i bob ymarferydd gofal plant.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Arweiniad ComIT | 03/02/2025 | 6.30 – 8.30pm | Microsoft Teams |

## Hanen Teacher Talk

Mae Teacher Talk yn ddull cam wrth gam ar gyfer hyrwyddo datblygiad iaith plant mewn lleoliadau gofal plant a chyn-ysgol a lleoliadau plentyndod cynnar eraill.

Yn ystod y sesiynau byddwch yn dysgu strategaethau ymarferol, rhyngweithiol i helpu pob plentyn i ryngweithio a chyfathrebu wrth ryngweithio a sgwrsio o ddydd i ddydd, gan ganolbwyntio ar ddiddordebau plant a darparu iaith sy'n addas at eu lefelau iaith.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Hanen Teacher Talk | 24 Ionawr<br>31 Ionawr<br>7 Chwefror<br>(cwrs â 3 sesiwn) | 9:00am hyd 1:00pm | Y Ganolfan Ddinesig<br>Ystafell Bwyllgor 1 |

# Hyfforddiant ar-lein - Llwybr Cyfathrebu 0-3 oed

Mae’r cwrs hwn ar-lein, ac yn rhad ac am ddim ac mae'n cymryd tua 1/2 diwrnod i'w gwblhau.  Mae'n lle gwych i ddechrau dysgu am ddatblygiad lleferydd ac iaith plant. Mae'n edrych ar sut y gallwch chi gefnogi datblygiad y sgiliau hyn o ddydd i ddydd yn eich lleoliad, a sut i adnabod plant a phobl ifanc a allai fod yn ei chael hi'n anodd datblygu'r sgiliau pwysig hyn.

Dyma'r ddolen i dudalen i ymarferwyr, ar gyfer adnoddau "Siarad gyda fi"

Siarad gyda fie: canllawiau i ymarferwyr | LLYW.CYMRU

Chwiliwch am yr eicon hwn i fynd â chi i'r dudalen ELKLAN i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant ar-lein:



**Short e-learning course**

An Introduction to Speech, Language and Communication' short e-learning course.

# Modiwlau Dechrau'n Deg

## Hyfforddiant Dechrau'n Deg - Modiwl 3 –

## Arfer da wrth chwarae / Rôl yr Oedolyn

Nod y sesiynau hyn yw dyfnhau ein dealltwriaeth am ystyr dysgu trwy chwarae, ei bwysigrwydd, ei fuddion a'i heriau. Trwy'r sesiynau a chyfres o gwestiynau adfyfyriol, byddwn yn ystyried ein harferion da ar hyn o bryd ac yn ystyried sut i wella ein darpariaethau ar gyfer chwarae.

Byddwn hefyd yn archwilio rolau amrywiol yr oedolyn sy'n galluogi.

Mae'r cwrs hwn i unrhyw ddarparwr gofal plant sydd â diddordeb mewn datblygu chwarae a rhyngweithio gydag oedolion yn eu lleoliad, ac i bob arweinydd ac ymarferydd gofal plant Dechrau'n Deg (neu leoliadau/ymarferwyr sydd â diddordeb mewn dod yn ddarparwr Dechrau'n Deg).

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Dechrau'n Deg Modiwl 3 – Arfer da wrth chwarae/Rôl yr Oedolyn (cwrs â 2 sesiwn) | 14/01/2025 a 21/01/2025 | 1 – 3pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Dechrau'n Deg Modiwl 3 – Arfer da wrth chwarae/Rôl yr Oedolyn (cwrs â 2 sesiwn) | 14/01/2025 a 21/01/2025 | 6.30 – 8.30pm | Microsoft Teams |

## Hyfforddiant Dechrau'n Deg - Modiwl 4 –

## Amgylcheddau Effeithiol

Yn y sesiynau hyn byddwn yn archwilio pam mae'r amgylchedd mor bwysig a'r hyn sy'n gwneud amgylchedd yn amgylchedd o ansawdd da i blentyn 2 i 3 oed. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r amgylchedd i sicrhau ei fod yn cael yr effaith orau - gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pob plentyn.

Mae'r cwrs hwn i unrhyw ddarparwr gofal plant sydd â diddordeb mewn datblygu chwarae a rhyngweithio ag oedolion yn eu lleoliad ac i bob arweinydd ac ymarferydd gofal plant Dechrau'n Deg (neu leoliadau/ymarferwyr sydd â diddordeb mewn dod yn ddarparwr Dechrau'n Deg).

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Dechrau'n Deg Modiwl 4 - Amgylcheddau Effeithiol (cwrs â 2 sesiwn) | 28/01/2025 a 04/02/2025 | 1 – 3pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Dechrau'n Deg Modiwl 4 - Amgylcheddau Effeithiol (cwrs â 2 sesiwn) | 28/01/2025 a 04/02/2025 | 6.30 – 8.30pm | Microsoft Teams |

# Dysgu Proffesiynol – Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

## Gweithdai Llwybrau Datblygu 0-3 oed

Datblygwyd y Llwybrau gan Lywodraeth Cymru – fe'u cyd-adeiladwyd gydag ymarferwyr ac arbenigwyr ar draws y sectorau addysg a gofal plant, ac fe'u cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.
Maen nhw'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddatblygiad plant a sut y gallwn eu cefnogi orau i dyfu a datblygu mewn ffyrdd sy'n addas i'w cam datblygu.
Bydd defnyddio'r Llwybrau Datblygu hyn yn sicrhau bod babanod a phlant ifanc yn dysgu ac yn datblygu mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw.
**Yn ystod y gweithdai hyn, sy'n awr o hyd, byddwn yn archwilio pob Llwybr Datblygu yn fanylach.**

**Mae'r gweithdai yn agored i bob ymarferydd gofal plant.**

## Gweithdy 3 – Y Llwybr Archwilio

O'u genedigaeth, mae chwilfrydedd naturiol plant am y byd o'u cwmpas yn ysgogiad cryf i archwilio. Mae plant yn ddatryswyr problemau chwilfrydig sy'n aml yn gweld rhyfeddod a syfrdandod mewn digwyddiadau bob-dydd. Maen nhw'n mwynhau archwilio ac ymchwilio drostyn nhw eu hunain a gydag eraill. Maen nhw'n datblygu angen i rannu eu rhyfeddod mewn gwybodaeth neu sgiliau newydd ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae dysgu'n cynnwys datblygu chwarae, sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau yn raddol mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Mae plant yn ffynnu mewn amgylcheddau cynhwysol, dan do ac yn yr awyr agored, a lle mae yna gyfleoedd penagored i chwarae, archwilio ac ymchwilio. Gall oedolion sy'n ymwybodol o ddiddordebau, ymatebion a chiwiau di-eiriau plant gefnogi anian naturiol i ddysgu a chynyddu gwybodaeth a sgiliau. O'u genedigaeth, mae ar blant angen rhyngweithio o ansawdd da ac amser o ansawdd da gydag oedolyn sy'n gallu eu cefnogi wrth iddyn nhw archwilio. Mae'n bwysig bod oedolion yn rhoi amser i blant fod yn chwilfrydig ac i archwilio'r amgylchedd o'u cwmpas yn ddiogel

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Llwybrau Datblygu - Archwilio | 11/02/2025 | 1 – 2pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Llwybrau Datblygu - Archwilio | 11/02/2025 | 6.30 – 7.30pm | Microsoft Teams |

# Gweithdy 4 - Llwybr Datblygiad Corfforol

Mae gan weithgarwch corfforol nifer fawr o fanteision i'r plentyn sy'n datblygu. Mae cysylltiad cryf rhwng symud a gwybyddiaeth a dysgu. Gall cynnwys plant mewn profiadau a gweithgareddau corfforol ar y cyfle cyntaf hefyd wella eu hymdeimlad o berthyn a lles. Gall eu cefnogi i ganolbwyntio'n well, ysgogi cymhelliant a gwella'r cof, yn ogystal â chefnogi datblygiad esgyrn a chyhyrau iach. Am y rheswm hwn, mae sgiliau datblygiad corfforol wedi'u plethu i'r pedwar llwybr datblygu arall, yn ogystal â bod yn llwybr datblygu ar wahân ynddo'i hun.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Llwybrau Datblygu - Datblygiad Corfforol | 18/02/2025 | 1 – 2pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Llwybrau Datblygu - Datblygiad Corfforol | 18/02/2025 | 6.30 – 7.30pm | Microsoft Teams |

# Ymwybyddiaeth o Sgema

Yn ystod y sesiwn hon byddwn yn:

- Ehangu ein gwybodaeth am sgemâu a beth ydyn nhw, yn ogystal â'n dealltwriaeth o ddatblygiad sgematig mewn plant ifanc
- Deall sut y gall ymwybyddiaeth o ddatblygiad sgema oleuo ein hymarfer
- Ystyried pam y gall yr adnoddau a'r profiadau yr ydym yn eu dewis gael effaith go iawn

**Mae'r cwrs hwn yn agored i bob ymarferydd gofal plant.**

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Sgema | 30/01/25 | 1:00pm hyd 3:00pm | Y Pwerdy, Cwmbrân |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Sgema | 30/01/25 | 6.30 – 8.30pm | Y Pwerdy, Cwmbrân |

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Defnyddio Hawliau yn y Byd Go Iawn

Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Byddwn yn archwilio: -

- sut mae'r Confensiwn yn effeithio ar y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant,
- rôl gweithredu'r Confensiwn mewn lleoliadau gofal plant,
- a sut mae hawliau'n berthnasol i fabanod a phlant ifanc.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| CCUHP - Hawliau'r Plentyn | 27/01/2025 | 1:00pm hyd 3:00pm | Y Ganolfan Ddinesig Ystafell Bwyllgor 2 |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| CCUHP - Hawliau'r Plentyn | 27/01/2025 | 6:30pm hyd 8:30pm | TEAMS |

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod - Rhan 1

- Codi ymwybyddiaeth am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac effaith trawma.
- Darparu addysg hefyd ar effaith straen tocsig ar yr ymennydd.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod - Rhan 1 | 06/02/2025 | 9:30am hyd 11:30am | Microsoft Teams |

# Graddfeydd Sgorio Amgylcheddol

## Gweithdai Graddfeydd Sgorio Amgylcheddol

Gall graddfeydd sgorio roi gwybodaeth werthfawr i ni am agweddau ar ddarpariaeth o ansawdd uchel yn ein lleoliadau. Ond, heb i ni ddeall y rhesymau a'r rhesymeg y tu ôl i'r eitemau unigol ac ystyried sut y gall newid effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth i blant, mae unrhyw newidiadau a wneir yn fyrhoedlog ar y gorau, ac ni fyddant yn cael eu hymgorffori'n drylwyr mewn arferion bob-dydd.

Mae pob un o'r gweithdai yn dechrau trwy archwilio'r ymchwil a'r meddwl cyfredol ynghylch egwyddorion allweddol pob un o'r eitemau yn drylwyr. Mae llawer o gyfleoedd i fyfyrio ar yr arfer cyfredol a chyfleoedd i rannu syniadau gyda phobl eraill sydd ar y cwrs.

Mae pob sesiwn yn gorffen trwy redeg yn fanwl trwy sut y mae'r eitem yn cael ei harsylwi a'i sgorio ar gyfer y raddfa berthnasol.

Y tymor hwn, rydym yn cwblhau'r eitemau gweithgaredd sy'n weddill yn is-raddfa 4 ar gyfer ITERS ac ECERS.

Cynulleidfa darged - pob lleoliad gofal plant y mae'n ofynnol iddo arsylwi ar gyfer y raddfa sgorio, neu unrhyw ddarparwr gofal plant sydd â diddordeb mewn offerynnau Gwella Ansawdd.

- ITERS 3 – i ddarparwyr gofal plant i blant 0-3 oed.
- ECERS 3 – i ddarparwyr gofal plant i blant 3-5 oed.

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ITERS Mathemateg / Rhif | 04/03/2025 | 1:00 - 2:00pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ITERS Mathemateg / Rhif | 04/03/2025 | 6:00-7:00pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ITERS Amrywiaeth | 25/03/2025 | 1:00 - 2:00pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ITERS Amrywiaeth | 25/03/2025 | 6:00-7:00pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ECERS Deunyddiau Mathemateg | 04/03/25 | 2:15pm-3:15pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ECERS Deunyddiau Mathemateg | 04/03/25 | 7:15-8:15pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ECERS Mathemateg mewn digwyddiadau bob-dydd | 11/03/25 | 2:15pm-3:15pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ECERS Mathemateg mewn digwyddiadau bob-dydd | 11/03/25 | 7:15-8:15pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ECERS Rhifau ysgrifenedig | 18/03/25 | 2:15pm-3:15pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ECERS Rhifau ysgrifenedig | 18/03/25 | 7:15-8:15pm | Microsoft Teams |
| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
| ECERS Amrywiaeth | 25/03/25 | 2:15pm-3:15pm | Microsoft Teams |

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| ECERS Amrywiaeth | 25/03/25 | 7:15-8:15pm | Microsoft Teams |

# Hyfforddiant ADY

Y tymor hwn, rydym yn cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer modiwlau ADY Consortiwm De-ddwyrain Cymru.

Bydd y sesiynau hyn yn rhyngweithiol ac yn cael eu diweddaru i adlewyrchu Prosesau ADY ym Mlynyddoedd Cynnar Torfaen.

Cynigiwyd y rownd gychwynnol o fodiwlau yn 2019/2020 felly bydd mynychu'r sesiynau diweddaru hyn yn gyfle perffaith i loywi gwybodaeth y rheiny a hyfforddwyd gyntaf 3 blynedd yn ôl.

## ADY Consortiwm De-ddwyrain Cymru – Modiwlau 1, 2 a 6:

- Cyflwyniad i ALNET
- Cod a rôl y CADY
- Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Anghenion Dysgu Ychwanegol – CDDdC Modiwlau 1, 2 a 6<br>Hanner diwrnod | 07/03/2025 | 9:30 hyd 12 hanner dydd | Y Ganolfan Ddinesig Ystafell Gynhadledd 2 |

## ADY Consortiwm De-ddwyrain Cymru – Modiwlau 3 Rhan 1, 3 Rhan 2 a 4:

- Cyflwyniad i Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
- Cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
- Targedau CAMPUS

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Anghenion Dysgu Ychwanegol- CDDdC Modiwl 3 Rhan 1, 3 Rhan 2, Modiwl 4<br>Diwrnod llawn | 14/03/2025 | 9:30-3:30 | Y Ganolfan Ddinesig Ystafell Gynhadledd 2 |

# ADY Consortiwm De-ddwyrain Cymru – Modiwlau 5 a 7:

- Creu amgylchedd cynhwysol
- Gweithio gyda rhieni

| Teitl y Cwrs | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Anghenion Dysgu Ychwanegol-CDDdC Modiwl 5 a 7 Diwrnod llawn | 21/03/2025 | 9:30-3:30 | Y Ganolfan Ddinesig Ystafell Gynhadledd 2 |

Cynulleidfa darged- **pob CADY a Dirprwy CADY, ac unrhyw Ymarferwyr Dechrau'n Deg**

## Dull Solihull

Dyma ddeuddydd o Hyfforddiant Sylfaen sy'n anelu at wella iechyd a llesiant emosiynol, yn ogystal â chyflwyno'r rheiny sydd ar y cwrs i effeithiau datblygiadol trawma yn ystod plentyndod mewn perthynas â gweithio gyda phlant a'u teuluoedd. Mae Dull Solihull yn cyflwyno model ar gyfer deall effaith perthnasoedd ar iechyd a llesiant ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar iechyd a llesiant. Mae'n cefnogi dulliau effeithiol a chyson ar draws asiantaethau fel fframwaith a rennir. Mae hyfforddiant Dull Solihull wedi'i gynllunio ar gyfer unrhyw ymarferydd sy'n gweithio gyda babanod, plant ifanc a phlant oed ysgol, pobl ifanc a'u teuluoedd i gefnogi'r defnydd o Ddull Solihull gan unrhyw asiantaeth.

Argymhellir y cwrs hwn ar gyfer pob ymarferydd Dechrau'n Deg ond mae'n agored i bob ymarferydd gofal plant.

**I gofrestru eich diddordeb yn hyfforddiant Solihull anfonwch neges trwy e-bost i earlyyearstraining@torfaen.gov.uk**

# Cylch Diogelwch ar gyfer Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar

Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i anelu at ymarferwyr plant sy'n gofalu am blant rhwng 1 a 6 oed.
Dros yr 8 wythnos byddwn yn meddwl am bwnc gwahanol gan ddefnyddio fideos byr, taflenni a sgwrsio gyda'n gilydd.
Bydd hyn yn helpu pob ymarferydd gofal plant i allu cefnogi'r elfennau canlynol, eu deall a'u gwella:

- *Sut i helpu'r plant yn eich gofal i ymdopi â'u byd emosiynol a'u teimladau*
- *Sut i helpu'r plant yn eich gofal i deimlo'n ddiogel yn eu perthnasau o fewn y lleoliad gofal plant*
- *Sut i ofalu amdanoch chi'ch hun fel ymarferydd gofal plant*
- *Sut i ddeall ymddygiad anodd ac ymateb iddo*

**I gofrestru eich diddordeb yn yr hyfforddiant Cylch Diogelwch anfonwch neges e-bost i earlyyearstraining@torfaen.gov.uk**

# Bwyd a Maeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar - Agored Cymru

Ar gyfer staff Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant:

**Sesiynau Cinio a Dysgu** dros Teams. Dyma'r dyddiadau:

- 8/1/25
- 5/3/25.
  Y ddau rhwng 1pm a 1.30pm.

**Sesiynau Diweddaru'r Blynyddoedd Cynnar** i staff a fynychodd y cwrs Sgiliau Maeth am Oes dros 2 flynedd yn ôl:

5/2/25, 4.30pm – 6.30pm (dros Teams).

Mae **Cwrs Deuddydd nesaf Bwyd a Maeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar Agored Cymru** wedi 'i drefnu ar gyfer dydd Llun 20 a 27 ***Ionawr*** yn Y Ganolfan Ddinesig, Torfaen.

**Cysylltwch â Ruth Harris (Swyddog Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Torfaen) i gadw'ch lle ar unrhyw un o'r cyrsiau bwyd a maeth hyn - ruth.harris@torfaen.gov.uk**

**Sylwch y bydd modd gweld cyfeiriadau e-bost wrth ddefnyddio Microsoft Teams, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael caniatâd y cyfranogwyr cyn defnyddio eu cyfeiriadau e-bost personol.**

**Os yw'r cwrs yn cael ei gynnal dros Microsoft Teams, sicrhewch fod gennych feicroffon a chamera sy'n gweithio a'u bod ymlaen, er mwyn eich galluogi i gymryd rhan. Bydd angen ardal dawel a chysylltiad da at y rhyngrwyd arnoch hefyd. Heb y rhain, fyddwch chi ddim yn gallu cymryd rhan yn yr hyfforddiant.**

**Any queries please contact**

**EarlyYearsTraining@torfaen.gov.uk**